



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2023 Rhif 102 (Cy. 19)**

**2023 No. 102 (W. 19)**

**CEFN GWLAD, CYMRU**

**COUNTRYSIDE, WALES**

Rheoliadau Deddf Cefn Gwlad a  
Hawliau Tramwy 2000 (Adolygu  
Mapiau) (Diwygio) (Cymru) 2023

The Countryside and Rights of Way  
Act 2000 (Review of Maps)  
(Amendment) (Wales) Regulations  
2023

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 10(2) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p. 37) ("y Ddeddf") o ran Cymru.

Mae adran 10(2) o'r Ddeddf yn rhagnodi'r cyfnodau amser y mae rhaid i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru (fel y corff cefn gwlad priodol o ran Cymru) gynnal ynddynt adolygiadau cychwynnol a dilynol o fapiau a ddyroddir ganddo ar ffurf derfynol o dan adran 9 o'r Ddeddf, gan ddangos tir comin cofrestredig a chefn gwlad agored yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 10(2)(b)(ii) o'r Ddeddf er mwyn estyn y cyfnod hiraf rhwng adolygiadau dilynol ar ôl adolygiad cyntaf, o 10 mlynedd ar ôl yr adolygiad blaenorol, i 15 mlynedd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend section 10(2) of the Countryside and Rights of Way Act 2000 (c. 37) ("the Act") in relation to Wales.

Section 10(2) of the Act prescribes the time periods within which the Natural Resources Body for Wales (as the appropriate countryside body in relation to Wales) must conduct initial and subsequent reviews of maps issued by it in conclusive form under section 9 of the Act, showing registered common land and open country in Wales.

These Regulations amend section 10(2)(b)(ii) of the Act in order to extend the maximum interval between subsequent reviews following a first review, from 10 years after the previous review, to 15 years.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

**2023 Rhif 102 (Cy. 19)**

**2023 No. 102 (W. 19)**

**CEFN GWLAD, CYMRU**

**COUNTRYSIDE, WALES**

**Rheoliadau Deddf Cefn Gwlad a  
Hawliau Tramwy 2000 (Adolygu  
Mapiau) (Diwygio) (Cymru) 2023**

**The Countryside and Rights of Way  
Act 2000 (Review of Maps)  
(Amendment) (Wales) Regulations  
2023**

*Gwnaed* 1 Chwefror 2023  
*Gosodwyd* gerbron *Senedd*  
*Cymru* 3 Chwefror 2023  
*Yn dod i rym* 1 Mawrth 2023

*Made* 1 February 2023  
*Laid before Senedd Cymru* 3 February 2023  
*Coming into force* 1 March 2023

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 10(3) a 45(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 10(3) and 45(1) of the Countryside and Rights of Way Act 2000(1).

**Enwi a chychwyn**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Adolygu Mapiau) (Diwygio) (Cymru) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Mawrth 2023.

**Title and commencement**

1.—(1) The title of these Regulations is the Countryside and Rights of Way Act 2000 (Review of Maps) (Amendment) (Wales) Regulations 2023.

(2) These Regulations come into force on 1 March 2023.

**Diwygio Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000**

2. Yn adran 10(2)(b)(ii) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (adolygu mapiau)(2), yn lle "ten" rhodder "fifteen".

**Amendment of the Countryside and Rights of Way Act 2000**

2. In section 10(2)(b)(ii) of the Countryside and Rights of Way Act 2000 (review of maps)(2), for "ten" substitute "fifteen".

(1) 2000 p. 37. Mae adran 45(1) yn diffinio "regulations" yn Rhan 1 o'r Ddeddf (o ran Cymru) fel rheoliadau a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 10(3) a 45(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.  
(2) Diwygiwyd adran 10(2) gan O.S. 2013/514. Mae diwygiad arall ond nid yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(1) 2000 c. 37. Section 45(1) defines "regulations" in Part 1 of the Act (as respects Wales) as regulations made by the National Assembly for Wales. The powers of the National Assembly for Wales under sections 10(3) and 45(1) of the Countryside and Rights of Way Act 2000 were transferred to the Welsh Ministers by section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).  
(2) Section 10(2) was amended by S.I. 2013/514. There is another amendment not relevant to these Regulations.

*Lesley Griffiths*

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r  
Trefnydd, un o Weinidogion Cymru  
1 Chwefror 2023

---

© Hawlfraint y Goron 2023

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

Minister for Rural Affairs and North Wales, and  
Trefnydd, one of the Welsh Ministers  
1 February 2023

---

© Crown copyright 2023

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

£4.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2023/102>

ISBN 978-0-348-39417-7



9 780348 394177